**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 28 Tachwedd 2023 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 13 Rhagfyr 2023 |

**PWNC**

Eitem 6: DOGFEN YMGYNGHOROL AMCANION CYDRADDOLDEB 2024-28

**PENDERFYNIAD**

Cytunwyd i ryddhau'r ddogfen ymgynghorol Amcanion Cydraddoldeb 2024-28 ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yn unol â'r adroddiad.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Yn ôl y ddyletswydd penodol sydd ar fudiadau cyhoeddus Cymru fel rhan o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae angen creu Cynllun Cydraddoldeb Statudol bob pedair blynedd. Fel rhan o hynny mae angen adolygu ein Amcanion Cydraddoldeb ar gyfer y cyfnod. Mae hefyd yn rhan o'r ddyletswydd penodol i gynnwys pobl â nodweddion gwarchodedig wrth wneud ein penderfyniad.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 28 Tachwedd 2023 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 13 Rhagfyr 2023 |

**PWNC**

Eitem 7: ADRODDIAD BLYNYDDOL BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL GOGLEDD CYMRU 2022/2023

**PENDERFYNIAD**

Nodwyd y gwaith a'r cynnydd a wnaed yn 2022/2023 yn y meysydd gwaith sy'n cael eu dwyn ymlaen yn rhanbarthol trwy Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Pwrpas yr adroddiad hwn yw darparu gwybodaeth i bartneriaid mewn perthynas â Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru a'i weithgareddau yn ystod 2022/23.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 28 Tachwedd 2023 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 13 Rhagfyr 2023 |

**PWNC**

Eitem 8: ADRODDIAD BLYNYDDOL PANEL RHIANT CORFFORAETHOL 2022-2023.

**PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad sy'n adrodd ar waith y Panel Rhiant Corfforaethol ar gyfer y flwyddyn 2022-23.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Pwrpas yr adroddiad hwn yw darparu diweddariad ar yr hyn sydd wedi'i gyflawni gan y Panel Rhiant Corfforaethol yn ystod y cyfnod.

Mae'n hanfodol bod aelodau'r Cabinet yn ymwybodol o waith y Panel ac yn gallu bodloni eu hunain bod y Panel wedi ymgymryd â'r gwaith sydd ei angen yn drylwyr a chydwybodol.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 28 Tachwedd 2023 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 13 Rhagfyr 2023 |

**PWNC**

Eitem 9: ADDYSG ÔL-16 ARFON

**PENDERFYNIAD**

1. Cymeradwywyd Opsiwn 2 ar gyfer prosiect Addysg Ôl-16 yn Arfon.
2. Cymeradwywyd i'r Pennaeth Addysg gynnal trafodaethau ar adolygu y memorandwm o ddealltwriaeth gyda'r rhan-ddeiliaid sydd yn ffurfio Consortiwm Addysg Ôl-16 Gwynedd ac Ynys Môn gyda'r bwriad o gryfhau y trefniadau ac adrodd yn ôl i'r Cabinet gyda argymhellion ar gyfer y digwyddiadau gytunwyd.
3. Caniatawyd i ddargyfeirio rhan o gyllideb prosiect Addysg Ôl-16 yn Arfon ar gyfer cyfarch y bwlch ariannol sydd ym mhrosiectau Band B yn unol â'r adroddiad, nad oes modd symud ymlaen â hwy ar hyn o bryd gan nad oes cyllideb ddigonol ar eu cyfer yn sgil cynnydd mewn costau.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae amserlen cyflwyno achosion busnes ar gyfer ein prosiectau sydd yn rhan o amlen Band B, Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn dod i ben fis Mawrth 2024, ac mae angen sicrhau ein bod wedi cyflawni ein hymrwymiadau o fewn Band B erbyn hynny. Mae Prosiect Addysg Ôl-16 Arfon yn rhan o amlen gyfalaf Band B.

Ym mis Mawrth 2023 cafwyd caniatâd gan y Cabinet i gychwyn proses ymgysylltu anffurfiol gyda rhan-ddeiliaid allweddol er mwyn ystyried y ddarpariaeth ôl-16 bresennol, ac amlygu'r ystyriaethau allweddol er mwyn adnabod y cyfeiriad a'r cyfleoedd i gryfhau'r ddarpariaeth addysgol ôl-16 yn Arfon. Lluniwyd adroddiad manwl sy'n dwyn y pennawd 'Trosolwg Addysg ôl-16' fel sail i'r ymgysylltu.

Er mwyn cefnogi'r ymgysylltu, cynhaliwyd cyfarfodydd rhithiol gyda dysgwyr, rhieni, staff dysgu a llywodraethwyr yn ystod y cyfnod er mwyn rhoi cyfle iddynt leisio eu barn a holi unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r maes. Cynhaliwyd 6 sesiwn rhithwir, a bu i dros 140 a ran-ddeiliaid fynychu.

Yn ogystal, er mwyn annog cymaint â phosibl i gyfrannu at y sgwrs, cynhaliwyd sesiynau rhithwir arbennig i gasglu barn a syniadau gan ddysgwyr yn Arfon am y math o gyfundrefn addysgo ôl-16 fyddai'n cwrdd â'r weledigaeth ynghyd â'u hanghenion hwy a'u cyfoedion i'r dyfodol.

Gellir crynhoi'r prif negeseuon a dderbyniwyd o'r broses ymgysylltu anffurfiol fel a ganlyn:

- Y brif flaenoriaeth yw Ansawdd Addysg
- Y dylid defnyddio TGCh i ategu a chefnogi'r dysgu wyneb yn wyneb.
- Bod Addysg Gymraeg a dwyieithog yn greiddiol bwysig (er rhai sylwadau i'r gwrthwyneb)
- Y dylid defnyddio'r arian cyfalaf i wella'r cyfleusterau ein hysgolion uwchradd yn gyffredinol fel bod modd i'r holl ddysgwyr 11-18 oed elwa o'r buddsoddiad.
- Bod gwrthwynebiad cyffredinol i unrhyw fwriad i ganoli neu drydyddu'r ddarpariaeth
- Y cafwyd sawl sylw am ddarpariaeth GLlM o safbwynt ansawdd, cyfrwng a gofal bugeiliol.

Ar 7 Mawrth 2023, derbyniwyd caniatâd gan y Cabinet i wneud gwaith pellach gyda rhan-ddeiliaid er mwyn datblygu modelau posib ar gyfer addysg ôl-16 yn Arfon oedd yn deillio o'r ymgysylltu anffurfiol a gynhaliwyd yn nhymor yr Hydref 2020.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Derbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan y Cynghorydd Elin Walker Jones gan ei bod yn lywodraethwr yn Ysgol Tryfan. Nid oedd o'r farn ei fod yn fuddiant sy'n rhagfarnu ac ni adawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

Derbyniwyd datganiadau o fuddiant personol gan y Cynghorwyr Beca Brown a Berwyn Parry Jones gan eu bod yn lywodraethwyr yn Ysgol Brynrefail. Nid oeddent o'r farn ei fod yn fuddiant sy'n rhagfarnu ac ni adawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

Derbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan y Prif Weithredwr gan fod cysylltiad teuluol yn fyfyriwr yn un o'r ysgolion a drafodwyd. Nid oedd o'r farn ei fod yn fuddiant sy'n rhagfarnu ac ni adawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 28 Tachwedd 2023 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 13 Rhagfyr 2023 |

**PWNC**

Eitem 10: ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS BLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD

**PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd a nodwyd y wybodaeth yn yr adroddiad.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad yn effeithiol.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 28 Tachwedd 2023 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 13 Rhagfyr 2023 |

**PWNC**

Eitem 11: ADRODDIAD HERIO PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS OEDOLION, IECHYD A LLESIANT

**PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd a nodwyd y wybodaeth yn yr adroddiad.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad yn effeithiol

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.